

Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Adroddiad ansawdd

Beth yw Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010?

Mae **Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010** (y Mesur) yn ddarn unigryw o ddeddfwriaeth a luniwyd i ddarparu fframwaith cyfreithiol i wella gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru. Prif nod y Mesur yw darparu'r canlynol:

- gwasanaeth cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol sy'n cynnig asesiad o iechyd meddwl unigolyn, a phan fydd hynny'n briodol, cyngor, gwybodaeth a/neu driniaeth (**Rhan 1**);
- cydgysylltydd gofal a chynllun gofal a thriniaeth cymesur a chyfannol ar gyfer pob unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd (**Rhan 2**);
- y gallu i'r rhai sy'n cael eu rhyddhau o wasanaethau iechyd meddwl ofyn eu hunain am ailasesiad o'u hiechyd meddwl pan fyddant yn credu ei bod yn bosibl bod eu hiechyd meddwl yn dirywio, trwy sicrhau bod trefniadau ar waith i gynnal yr ailasesiadau hynny (**Rhan 3**);
- eiriolaeth iechyd meddwl statudol gan Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol, wedi'i hestyn y tu hwnt i'r hyn a oedd yn ofynnol yn flaenorol o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i gynnwys cleifion anffurfiol/gwirfoddol, yn ogystal â'r mwyafrif o gleifion sy'n ddarostyngedig i bwerau ffurfiol y Ddeddf honno sydd â'r hawl i dderbyn cymorth (**Rhan 4**).

Beth yw'r ystadegau hyn?

Mae **ystadegau Rhan 1** y Mesur yn dangos y canlynol, o fis Ebrill 2013, yn ôl pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru:

- nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer asesiad gan y gwasanaeth cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol bob mis;
- nifer a chanran yr asesiadau gan y gwasanaeth cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol a gynhaliwyd ymhen 28 diwrnod i dderbyn atgyfeiriad, a thros 28 diwrnod ar ôl derbyn atgyfeiriad bob mis;
- nifer a chanran yr ymyriadau therapiwtig a ddechreuwyd ymhen 28 diwrnod i asesiad gan y gwasanaeth cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol, a thros 28 diwrnod ar ôl yr asesiad.

O fis Ebrill 2020, mae'r ystadegau hyn ar gael hefyd yn ôl bandiau oedran penodol.

Mae ystadegau **Rhan 2 y Mesur** yn dangos y canlynol, o fis Gorffennaf 2014 i fis Mawrth 2020, yn ôl pob bwrdd iechyd lleol a maes gwasanaeth yng Nghymru:

- nifer y cleifion a chanddynt gynllun gofal a thriniaeth dilys ar ddiwedd bob mis;
- nifer y cleifion a oedd yn derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd (h.y. y 'llwyth achosion') ar ddiwedd bob mis;
- canran y cleifion a chanddynt gynllun gofal a thriniaeth dilys ar ddiwedd bob mis.

O fis Ebrill 2020, mae'r ystadegau hyn ar gael hefyd yn ôl Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru a bandiau oedran penodol.

Mae ystadegau **Rhan 3 y Mesur** yn dangos y canlynol, o fis Ebrill 2016, yn ôl pob bwrdd iechyd lleol yng Nghymru:

- nifer a chanran yr adroddiadau canlyniadau asesiad a anfonwyd ymhen deg diwrnod gwaith i'r asesiad Rhan 3 gael ei gynnal, a thros ddeg diwrnod gwaith ar ôl yr asesiad.

Diffiniadau'r Mesur

Diffiniadau Rhan 1

Aseidiadau – Gall asesiad fod wyneb yn wyneb neu dros y ffôn, a bydd yn cynnwys aseidiadau gyda rhieni neu ofalwyr, os yw'n briodol, mewn perthynas â'r unigolyn sydd wedi cael ei atgyfeirio, naill ai gyda'r unigolyn hwnnw'n bresennol neu beidio. Bydd yn eithrio unrhyw gysylltiad cychwynnol dros y ffôn i benderfynu a yw'r unigolyn am gael asesiad. Mae'r asesiad yn werthusiad o natur anghenion iechyd meddwl claf.

Gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol – Y gwasanaeth hwn yw'r hyn sy'n ofynnol o dan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, ac nid yw'n cynnwys gwasanaethau iechyd meddwl sylfaenol ychwanegol a nodir mewn cynlluniau rhanbarthol a lleol ar y cyd.

Ymyrraeth therapiwtig – Darperir yr ymyriadau hyn gan y gwasanaeth cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol, ac fe'u darperir naill ai ar gyfer grŵp neu ar gyfer unigolyn. Maent yn cynnwys y bobl hynny sydd wedi cael eu hatgyfeirio gan eu meddyg teulu ac wedi cael eu hasesu gan y gwasanaeth cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol, pan gytunir y byddai unigolyn yn elwa ar gwrs mynediad agored nad yw'n gofyn am atgyfeiriad gan asiantaeth neu unigolyn yn y lle cyntaf, a phan fyddai'r unigolyn hefyd yn elwa ar apwyntiad dilynol gyda'r gwasanaeth cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol.

Mae gwybodaeth yn cael ei hadrodd gan bob un o'r saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru am y swyddogaethau a ddarperir gan y gwasanaeth cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol, ac nid am gleifion sy'n byw yn ardal y bwrdd iechyd lleol.

Y bandiau oedran sy'n cael eu defnyddio yw:

- Iau nag 18 oed – Mae hyn yn cynnwys y rhai mewn gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) a'r rhai iau na 18 mlwydd oed sydd mewn gwasanaethau anabledd dysgu.

- 18 oed a hŷn – mae hyn yn cynnwys pobl mewn gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion, gwasanaethau iechyd meddwl i rai hŷn, a phobl 18 oed a hŷn mewn gwasanaethau anabled dysgu.

Diffiniadau Rhan 2

Cynllun gofal a thriniaeth – Mae rheoliadau a wnaed o dan Ran 2 y Mesur (Rheoliadau Iechyd Meddwl (Cydgysylltu a Chynllunio Gofal a Thriniaeth) (Cymru) 2011) yn rhagnodi cynnwys a ffurf y cynllun gofal a thriniaeth y bydd yn rhaid i'r holl gydgyssylltwyr gofal ei ddefnyddio. O dan y rheoliad, bydd pob cynllun gofal a thriniaeth:

- a) yn cael ei ddatblygu gan gydgyssylltydd gofal mewn cydweithrediad â'r defnyddwyr gwasanaeth a'r darparwyr gofal iechyd meddwl (er ei bod yn bosibl y bydd y cynllun yn cael ei ddatblygu heb fewnbwn gan y claf pan nad yw pob parti'n gallu cytuno ar y canlyniadau);
- b) yn ysgrifenedig;
- c) yn cofnodi'r canlyniadau mae darpariaeth y gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer y claf perthnasol wedi cael eu dylunio i'w cyflawni;
- d) yn rhestru'r canlyniadau hyn, yn cofnodi'r gwasanaethau a/neu'r gweithgareddau a fydd yn cael eu darparu i gyflawni pob canlyniad, a nodi pwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth yn ogystal â lle bydd yn cael ei gynnal;
- e) yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau i'r math o ofal a thriniaeth mae'n bosib y bydd ei angen ar y defnyddiwr gwasanaeth dros amser.

Er mwyn ystyried bod cynllun gofal a thriniaeth yn ddilys, rhaid iddo fod yn gyfredol (o fewn y dyddiad dod i ben) a heb fynd heibio i'w ddyddiad adolygu (uchafswm o 12 mis).

Gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd – Mae hyn yn cyfeirio at wasanaethau a ddarperir gan wasanaethau iechyd meddwl eilaidd nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol. Fe'u diffinnir fel a ganlyn:

- a) gwasanaeth ar ffurf triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol unigolyn a ddarperir o dan Ran 1 Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;
- b) gwasanaeth a ddarperir o dan Adran 117 Deddf Iechyd Meddwl 1983;
- c) gwasanaeth gofal cymunedol sydd â'r prif nod o ddiwallu angen sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl oedolyn;
- d) gwasanaeth a ddarperir ar gyfer plentyn o dan Ran 3 Deddf Plant 1989, sydd â'r prif nod o ddiwallu angen sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl y plentyn hwnnw.

Mae gwasanaeth ar ffurf triniaeth ar gyfer anhwylder meddyliol unigolyn yn cynnwys gwasanaeth sydd, ym marn y person sy'n darparu neu drefnu darpariaeth y gwasanaeth, â'r nod o drin anhwylder meddyliol mae'n bosibl ei fod gan yr unigolyn sy'n derbyn y gwasanaeth.

Mae gwybodaeth yn cael ei hadrodd gan bob un o'r saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru am gleifion sy'n byw yn ardal y bwrdd iechyd lleol, ac nid am y gwasanaethau mae pob un yn eu darparu.

Y bandiau oedran sy'n cael eu defnyddio yw:

- Iau nag 18 oed – Mae hyn yn cynnwys y rhai mewn gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed (CAMHS) a'r rhai iau na 18 mlwydd oed sydd mewn gwasanaethau anabledd dysgu.
- 18 oed a hŷn – mae hyn yn cynnwys pobl mewn gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion, gwasanaethau iechyd meddwl i rai hŷn, a phobl 18 oed a hŷn mewn gwasanaethau anabledd dysgu.

Diffiniadau Rhan 3

Asesiad Rhan 3– Mae asesiad Rhan 3 yn cael ei gynnal pan fydd unigolyn wedi ei atgyfeirio ei hun yn ôl i wasanaethau iechyd meddwl eilaidd ar ôl iddo gael ei ryddhau, o fewn yr amser a bennir yn Rhan 3 y Mesur (h.y. o fewn tair blynedd i'r dyddiad rhyddhau).

Mae'n ofynnol i ddarparwyr gwasanaethau iechyd meddwl baratoi adroddiad ysgrifenedig yn dilyn asesiad Rhan 3, sy'n amlinellu unrhyw wasanaethau sydd wedi cael eu nodi a allai wella iechyd meddwl unigolyn neu atal dirywiad. Mae'r rheoliadau o dan Ran 3 yn ei gwneud yn ofynnol i gopi o'r adroddiad gael ei ddarparu ar gyfer yr unigolyn a gafodd ei asesu ymhen deg diwrnod gwaith i gasgliad yr asesiad. Ystyrir bod adroddiad wedi'i ddarparu pan fydd naill ai wedi cael ei gyflwyno â llaw i'r unigolyn neu wedi'i anfon trwy bost rhagdaledig at gyfeiriad arferol yr unigolyn neu'r cyfeiriad diwethaf y gwyddys amdano.

Mae gwybodaeth yn cael ei hadrodd gan bob un o'r saith bwrdd iechyd lleol yng Nghymru am gleifion sy'n byw yn ardal y bwrdd iechyd lleol, ac nid am y gwasanaethau mae pob un yn eu darparu.

Defnyddwyr a defnyddiau

Mae dealltwriaeth o dueddiadau amseroedd aros a llwythi gwaith o fewn gwasanaethau iechyd meddwl yn hanfodol ar gyfer y rhai sy'n cymryd rhan yn y broses o gynllunio a gwneud penderfyniadau ar lefel genedlaethol a lefel leol.

Rydym yn credu bod prif ddefnyddwyr yr ystadegau hyn fel a ganlyn:

- Gweinidogion a'u cynghorwyr;
- Aelodau'r Cynulliad a'r Gwasanaeth Ymchwil Cenedlaethol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Swyddogion o fewn y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru;
- GIG Cymru;
- Awdurdodau lleol;
- Sefydliadau trydydd sector/gwirfoddol;
- Maes iechyd meddwl;
- Myfyrwyr, academyddion a phrifysgolion;

- Adrannau eraill Llywodraeth Cymru;
- Adrannau llywodraethol eraill;
- Darparwyr annibynnol;
- Y cyfryngau;
- Dinasyddion unigol.

Defnyddir yr ystadegau mewn nifer o ffyrdd. Mae rhai enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Asesu'r effaith mae cyflwyno'r Mesur wedi'i chael ar helpu pobl sydd â phroblem iechyd meddwl yng Nghymru; Darparu cyngor a sesiynau briffio ar gyfer gweinidogion ynglŷn â'r perfformiad diweddaraf yn erbyn targedau Fframwaith Cyflawni'r GIG ledled Cymru;
- Asesu, rheoli a monitro perfformiad GIG Cymru yn erbyn targedau perfformiad;
- Llywio prosiectau gwella gwasanaethau ar gyfer meysydd penodol a chyfluoedd ar gyfer gwella ansawdd;
- Byrddau iechyd lleol y GIG yn eu defnyddio'n feincnod i'w mesur eu hunain yn erbyn byrddau iechyd meddwl eraill;
- Cyfrannu at erthyglau newydd yn ymwneud ag iechyd meddwl yng Nghymru;
- Helpu i bennu'r gwasanaethau y gall y cyhoedd eu derbyn gan GIG Cymru.

Os ydych yn ddefnyddiwr ac yn teimlo nad yw'r rhestr uchod yn eich cynnwys yn ddigonol, rhowch wybod inni trwy gysylltu â ni ar hss.performance@llyw.cymru.

Cryfderau a chyfyngiadau data

Cryfderau

- Mae'r wybodaeth yn cael ei phrosesu a'i chyhoeddi'n chwarterol (yn StatsCymru ac mewn pennawd ar wefan Llywodraeth Cymru) mewn modd trefnus er mwyn sicrhau ei bod yn hygyrch ac yn hawdd ei defnyddio.
- Mae gan allbynnau ffocws clir ar Gymru ac maent wedi cael eu datblygu i ddiwallu anghenion defnyddwyr mewnol ac allanol yng Nghymru. Darperir gwybodaeth gan y bwrdd iechyd lleol a'r maes gwasanaeth (lle bo hynny'n berthnasol). Mae ffigurau a chanrannau'n cael eu cyhoeddi.
- Mae'r data'n galluogi pobl i asesu'r effaith mae'r Mesur wedi'i chael ar helpu pobl sydd â phroblem iechyd meddwl yng Nghymru.

Cyfyngiadau

- Bwriedir gwybodaeth StatsCymru ar gyfer cynulleidfa fwy gwybodus, gyda dim ond ychydig o eglurhad i alluogi defnyddwyr eraill i ddehongli'r data mewn modd priodol. Rydym yn annog defnyddwyr i gysylltu â'r adroddiad ansawdd/pennawd hwn i gael rhagor o wybodaeth gefndirol.
- Nid oes unrhyw ddata wedi'i fapio.

- Oherwydd y gweinyddiaethau datganoledig a pholisïau a deddfwriaeth wahanol, mae llai o gyfle i wneud cymariaethau uniongyrchol â gweddill y DU.
- Mae'r sylwebaeth ar y data pennawd chwarterol yn gyfyngedig.

Y cylch prosesu data

Casglu data

Mae'r Is-adran Cyflawni a Pherfformio o fewn Llywodraeth Cymru yn derbyn tair ffurflen monitro'r Mesur Iechyd Meddwl wedi eu cwblhau gan bob un o'r byrddau iechyd lleol, yn ymwneud â rhannau 1, 2 a 3 y Mesur. Mae'r safonau sy'n gysylltiedig â'r ffurflenni hyn wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru a'r Grŵp Hysbysiadau Newid Set Ddata.

Dilysu a gwireddu

Mae'r Is-adran Cyflawni a Pherfformio yn lanlwytho'r data a dderbynnir bob mis. Mae'r system prosesu data a ddefnyddir yn sicrhau nad oes data ar goll o'r datganiadau. Mae gwiriadau dilysu a gwireddu pellach yn cael eu cynnal bob mis, gan gynnwys, er enghraifft, gwirio tueddiadau yn y data ac unrhyw ostyngiadau sylweddol mewn perfformiad yn erbyn targedau Fframwaith Cyflawni'r GIG. Mae unrhyw abnormaleddau yn y data'n cael eu nodi, ac wedyn mae'r rhain yn cael eu trafod â'r byrddau iechyd lleol, er mwyn eu galluogi i wirio, cywiro neu wneud sylwadau ynglŷn â'u data, ac i ddarparu gwybodaeth gyd-destunol lle bo hynny'n briodol.

Cyhoeddiadau ac adolygiadau

Mae'r ystadegau a gyhoeddir gan yr Is-adran Cyflawni a Pherfformio yn cael eu cynhyrchu trwy grynhoi'r wybodaeth a ddarperir gan y byrddau iechyd lleol.

Bob chwarter rydym yn darparu pennawd html byr ar ein gwefan sy'n rhoi dolen i dablau StatsCymru a'r adroddiad ansawdd hwn. Mae'r wybodaeth a gyflwynir yn StatsCymru yn cael ei chynhyrchu trwy broses awtomatig.

Mae'r data ar gyfer y flwyddyn ariannol ddiweddaraf (12 mis – o fis Ebrill i fis Mawrth) yn cael ei gyhoeddi dros dro, ac mae'n bosibl y bydd yn cael ei diwygio mewn diweddariadau yn y dyfodol. Mae hyn i alluogi byrddau iechyd lleol i gyflwyno data diwygiedig wrth iddynt wneud gwaith dilysu pellach.

Ar yr achlysur annhebyg lle mae data anghywir yn cael ei gyhoeddi, byddai diwygiadau'n cael eu gwneud a defnyddwyr yn cael eu hysbysu yn unol â threfniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer [Diwygiadau, Camgymeriadau a Gohiriadau](#).

Datgelu a chyfrinachedd

Yn dilyn ein hasesiad risg datgelu, rydym yn credu ei bod yn annhebyg iawn y gallai unigolyn gael ei adnabod trwy'r data rydym yn ei gyhoeddi, heb feddu ar wybodaeth arall am y claf eisoes. O'r herwydd, nid yw gwerthoedd bach wedi cael eu hatal.

Rydym yn glynu wrth y [datganiad ar gyfrinachedd a mynediad at ddata](#), a gyhoeddwyd yn unol â'r gofynion a amlinellir yn egwyddorion y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Ansawdd

Mae'r Is-adran Cyflawni a Pherfformio yn glynu wrth [strategaeth ansawdd](#) ac mae hon yn unol ag Egrwyddor 4 y [Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol](#).

Yn benodol, mae'r rhestr isod yn rhoi manylion y chwe elfen o'r System Ystadegol Ewropeaidd a sut rydym yn glynu wrthynt:

Perthnasedd

Y graddau mae'r cynnyrch ystadegol yn diwallu anghenion defnyddwyr o ran cwmpas a chynnwys.

Mae'r ystadegau'n cael eu defnyddio yn fesur perfformiad yn erbyn targedau cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru, ac yn cyfrannu at y gwaith o asesu'r effaith mae'r Mesur wedi'i chael ar helpu pobl sydd â phroblem iechyd meddwl yng Nghymru. Mae buddiannau a defnyddiau eraill y data hwn yn cael eu hamlinellu uchod.

Rydym yn annog y bobl sy'n defnyddio'r ystadegau i gysylltu â ni i'n hysbysu ni am sut maent yn defnyddio'r data. Ni fyddai'n bosibl darparu tablau sy'n diwallu anghenion pob defnyddiwr, ond mae'r tablau a gyhoeddir yn StatsCymru yn ceisio ateb cwestiynau cyffredin.

Rydym yn ymgynghori â defnyddwyr allweddol cyn gwneud newidiadau a, lle bo modd gwneud hynny, yn cyhoeddi newidiadau ar y we, mewn pwyllgorau ac ar rwydweithiau eraill er mwyn ymgynghori â defnyddwyr yn ehangach. Rydym yn ceisio ymateb i newidiadau polisi'n gyflym i sicrhau bod ystadegau'n parhau i fod yn berthnasol.

Cywirdeb

Yr agosrwydd rhwng canlyniad amcangyfrifedig a gwir werth (sy'n anhysbys).

Gellir rhannu cywirdeb yn gamgymeriadau samplu a chamgymeriadau nad ydynt yn ymwneud â'r proses samplu. Mae camgymeriadau nad ydynt yn ymwneud â'r proses samplu'n cynnwys meysydd megis camgymeriadau cwmpasu, camgymeriadau o ganlyniad i ddiffyg ymateb, camgymeriadau mesur a chamgymeriadau prosesu.

Mae hyn yn gasgliad sefydlog o ddata sy'n seiliedig 100% ar ddata, nid ar sampl.

Ar gyfer y rhan fwyaf o'r misoedd, mae pob bwrdd iechyd lleol yn gallu darparu data, ac o'r herwydd nid oes angen amcangyfrif ffigurau. Pan ddefnyddir amcangyfrifon, oherwydd nad yw bwrdd iechyd lleol yn gallu darparu data ar gyfer mis penodol, mae hyn yn cael ei nodi'n eglur yn y data.

Hyd yma, nid ydym wedi archwilio camgymeriadau nad ydynt yn ymwneud â'r proses samplu. Fodd bynnag, gallai camgymeriadau prosesu ddigwydd pan fydd clercod mewn ysbytai'n mewnbynnu data i'w system weinyddu'n anghywir, a gallai camgymeriadau mesur ddigwydd pan fydd staff mewn ysbytai'n dehongli diffiniadau'n wahanol. Er mwyn lleihau camgymeriadau nad ydynt yn ymwneud â'r broses samplu, mae safonau a chyfarwyddyd yn cael eu darparu ar gyfer pob datganiad data, i geisio sicrhau bod byrddau iechyd lleol yn cyflwyno gwybodaeth yn unol â'r diffiniadau a'r fanyleb y cytunir arnynt. Mae safonau sy'n gysylltiedig â'r gwaith casglu data hwn wedi cael eu hadolygu a'u cymeradwyo gan [Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru](#). Pan fydd camgymeriadau nad ydynt yn ymwneud â'r broses samplu'n

effeithio ar y data, rydym yn darparu gwybodaeth lawn ar gyfer defnyddwyr er mwyn iddynt wneud penderfyniadau ar sail wybodaeth ynglŷn ag ansawdd yr ystadegau, yn enwedig os oes cyfyngiadau.

Mae ein holl allbynnau'n cynnwys gwybodaeth am gwmpas, amseru a daearyddiaeth.

Mae gweithdrefnau sicrhau ansawdd ar waith i ddeall ac i esbonio symudiadau yn y data, ac i wirio a yw'r system gyfrifiadurol yn cyfrifo'r ystadegau sy'n cael eu cyhoeddi'n gywir.

Ar yr achlysur annhebyg lle mae data anghywir yn cael ei gyhoeddi, byddai diwygiadau'n cael eu gwneud a defnyddwyr yn cael eu hysbysu yn unol â threfniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer [Diwygiadau, Camgymeriadau a Gohiriadau](#).

Amseroldeb a phrydlondeb

Mae amseroldeb yn cyfeirio at yr amser rhwng y cyhoeddi a'r cyfnod mae'r data'n cyfeirio ato. Mae prydlondeb yn cyfeirio at yr amser rhwng dyddiadau arfaethedig y cyhoeddi a'r dyddiadau cyhoeddi mewn gwirionedd.

Mae'r holl allbynnau'n glynu wrth y Cod Ymarfer trwy gyhoeddi'r dyddiad cyhoeddi trwy'r [Calendr o Gyhoeddiadau Arfaethedig](#). Hefyd, pe bai angen gohirio allbwn, bydd hyn yn dilyn trefniadau Llywodraeth Cymru ar gyfer [Diwygiadau, Camgymeriadau a Gohiriadau](#).

Rydym yn cyhoeddi data cyn gynted ag y bydd yn ymarferol ar ôl diwedd pob chwarter ac yn unol ag anghenion defnyddwyr.

Hygyrchedd ac eglurdeb

Hygyrchedd yw pa mor hawdd mae defnyddwyr yn gallu cael mynediad at y data, ac mae hefyd yn adlewyrchu'r fformat(au) mae data ar gael ynddo/ynddynt ac argaeledd gwybodaeth ategol. Mae eglurdeb yn cyfeirio at ansawdd a digonedd y metadata, enghreifftiau, a chynngor sy'n cyd-fynd a'r data.

Mae'r ystadegau'n cael eu cyhoeddi'n chwarterol fel pennawd ar ein gwefan ac yn StatsCymru mewn dull hygyrch, trefnus ac wedi'i gyhoeddi ymlaen llawn ar wefan Llywodraeth Cymru am 9.30am ar y diwrnod cyhoeddi. Mae ffrwd RSS yn hysbysu defnyddwyr cofrestredig am y cyhoeddiad hwn. Mae'r penawdau'n cael eu cyhoeddi'n gydamserol ar Hwb Cyhoeddi Ystadegau Gwladol. Rydym hefyd yn cyhoeddi'r allbynnau ar [Twitter](#). Mae'r holl allbynnau ar gael i'w lawrlwytho am ddim.

Mae data manwl ar gael ar yr un pryd â'r pennawd ar wefan StatsCymru, a gellir trin y data hwn ar-lein neu ar daenlenni wedi eu lawrlwytho i'w defnyddio all-lein.

Rydym yn ceisio defnyddio iaith glir yn ein hallbynnau ac maent yn dilyn [polisi hygyrchedd](#) Llywodraeth Cymru. Hefyd, mae ein holl benawdau'n cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ynglŷn â'r ystadegau trwy gysylltu â'r staff perthnasol a restrir yn y pennawd neu trwy e-bostio hss.performance@llyw.cymru.

Cymaroldeb

Y graddau y gellir cytuno ar ddata dros amser a pharthau.

Pan wyddys ymlaen llaw am newidiadau yn y dyfodol, bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ymlaen llaw yn unol â threfniadau Llywodraeth Cymru.

Mae safonau a diffiniadau y cytunir arnynt yng Nghymru yn darparu sicrwydd y bydd y data'n parhau i fod yn gyson ar draws yr holl fyrddau iechyd lleol.

Cydlyniad

Y graddau mae data sy'n cael ei gaffael o ffynonellau gwahanol neu drwy ddulliau gwahanol, ond sy'n cyfeirio at yr un ffenomen, yn debyg.

Bob mis mae data'n cael ei gasglu o'r un ffynonellau ac yn glynu wrth yr un safon genedlaethol. Pan fydd diffiniadau neu gwmpas yn newid, rydym yn nodi hyn yn eglur ar y dudalen bennawd ac yn ychwanegu cafeatau priodol at y data.

Oherwydd bod y Mesur yn ddarn unigryw o ddeddfwriaeth sy'n benodol i Gymru yn unig, ni ellir cymharu'r data ag unrhyw wlad arall yn y DU.

Lledaeniad

Mae'r holl ddata o safon ddigonol i gyfiawnhau ei gyhoeddi, yn dilyn y broses wirio a amlinellir uchod.

Mae'r holl ddata ei hun yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan rhyngweithiol [StatsCymru](#).

Gwerthusiad

Anfonwch eich adborth ar yr ystadegau a'r adroddiad ansawdd hwn at hss.performance@llyw.cymru.

Cynhyrchwyd gan: Is-adran Cyflawni a Pherfformio Llywodraeth Cymru

Diwygiwyd ddiwethaf: Hydref 2020